



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Tir yn Clegir Mawr & Pen y Graig, Rhydwyn Gweledigaeth a Manylion Gosod



Ar gael i'w osod drwy dendr



Ffermio er mwyn bwyd a natur ...

1. Y Cyfle	3
2. Y Daliad	3
4. Ceisiadau a Thendrau	4
5. Ymwadiad ac Amddiffyn Data	7
6. Atodiadau	8

...Statws Naturiol Uchel



1. Y Cyfle

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwahodd ceisiadau am **Ddaliadaeth Fusnes Fferm am gyfnod o 2 flynedd gychwynnol** yn Clegir Mawr a Phen y Graig. Mae hwn yn gyfle i ffermwr blaengar sy'n gwerthfawrogi ffermio da byw cynhyrchiol ochr yn ochr â gofal a gwelliant yr amgylchedd naturiol.

Rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr sy'n cydnabod y bydd angen i reolaeth y tir hwn fod yn hyblyg ac yn sensitif, ac sy'n cael eu hysgogi gan yr her o ffermio mewn modd sy'n fuddiannau i fywyd gwyllt, cynefinoedd a chymeriad y dirwedd. Mae rhan o'r daliad wedi'i lleoli o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), a rhaid i unrhyw gynigion adlewyrchu'n llawn ei bwysigrwydd cadwraethol.

Ein nod yw gweithio gyda thenant y mae ei system ffermio yn cefnogi amcanion yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer adfer natur, gwydnwch hinsawdd a phobl, wrth barhau'n ymarferol ac yn hyfyw yn economaidd. Rydym yn cydnabod nad oes un dull unigol o gyflawni hyn ac y byddem yn croesawu cynigion meddylgar ac arloesol sy'n dangos sut y gellir magu da byw o safon uchel wrth gynnal, gwella neu greu cynefinoedd.

2.0 Y Daliad

Mae'r daliad yn dir noeth yn unig ac yn ymestyn i tua 36.36 hecтар. Mae'r ardal yr ydym yn bwriadu ei gosod wedi'i nodi ag ymyl coch ar y cynllun atodedig, ynghyd ag amserlen o rifau caeau, arwynebeddau a dosbarthiadau. Ceir mynediad i'r tir drwy drac preifat sy'n cysylltu â ffordd leiaf, i'r gogledd o Porth Swtan.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn croesi'r daliad, ynghyd â hawliau tramwy cyhoeddus eraill. Mae'r daliad yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) biolegol oherwydd presenoldeb y helianthem smotiog prin (spotted rock-rose).

Mae cyflenwad dŵr o'r prif gyflenwad i'r tir, a'r tenant fydd yn gyfrifol am dalu am yr holl ddŵr a ddefnyddir. Nid oes cyfleusterau trin da byw ar y daliad ar hyn o bryd.

Noder na fydd unrhyw siediau'n cael eu gosod gyda'r daliad, gan mai tir noeth yn unig ydyw.

2.1 Y Ddaliadaeth

Bwriedir gosod y tir ar Ddaliadaeth Fusnes Fferm a fydd yn cychwyn ddiwedd haf 2026 am gyfnod pendant cychwynnol o 2 flynedd. Bydd y ddaliadaeth yn ddarostyngedig i

rwymedigaethau atgyweirio safonol, a bydd copi drafft o gytundeb Daliadaeth Fusnes Fferm safonol ar gael i'w weld ar gais.

Bydd y tenant yn gyfrifol am gynnal ffin sy'n ddiogel rhag da byw o amgylch y Daliad, a bydd yn ofynnol i'r tenant ymgymryd â chyfres o waith ffensio fel rhan o'r gosodiad. Ni chaniateir defnydd o fwydo cylch (ring feeders) na bwydo atodol, ac eithrio beiliau bach o wair a geir yn lleol. Yn ogystal, ni chaniateir unrhyw fewnbynau megis gwrtaithe organig nac anorganig. Bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cadw pob hawl i bob coeden, gan gynnwys yr hawl i blannu coed ychwanegol ar draws y daliad.

Noder fod y tir wedi'i optio i dreth TAW ac felly bydd TAW yn cael ei godi ar y rhent.

2.2 Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chynlluniau Amaeth-Amgylcheddol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi manylion cynllun y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ddiweddar, a byddai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn agored i drafod cynigion ar gyfer y tir hwn. Byddai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd yn barod i ystyried cynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill fesul achos.

3.0 Manylion y Broses Ymgeisio a Thendro

Mae ffurflenni cais ar ddiwedd y ddogfen hon. Dylid cyflwyno pob cais gan ddefnyddio'r ffurflenni cais penodedig, sydd i'w llofnodi, eu marcio'n **Breifafat a Chyfrinachol – Tir yn Clegir Mawr**, a'u hanfon naill ai drwy e-bost i:

wa.tenantenquiries@nationaltrust.org.uk

Neu drwy'r post i:

**CAIS TIR YN CLEGIR MAWR
SWYDDFA YSTAD YSBYTY
DINAS
BETWS Y COED
LL24 OHF**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn pob cais, drwy e-bost neu'r post, yw **12yp ar 3 Mehefin 2026**.

Caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu gwahodd i ddiwrnod agored, a ragwelir dros dro ar gyfer **18 Mehefin 2026**, lle, ar ôl adolygu'r daliad, byddant yn gallu cyflwyno tendr ar gyfer y tir.

Noder nad yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rhwymo ei hun i dderbyn y tendr uchaf nac unrhyw dendr. Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn tendrau gan ymgeiswyr nad ydynt wedi ymweld â'r fferm ar un o'r diwrnodau gweld. Dylai ymgeiswyr ddarparu

unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol sy'n ofynnol i gadarnhau a chyfiawnhau'r cynigion.

Dylai ymgeiswyr gwblhau cyllidebau llawn a rhagolygon llif arian ar gyfer eu cynigion, yn ogystal â bod yn barod i ddarparu manylion eu hadnoddau ariannol ac amaethyddol. Dylid rhoi pwyslais ar sut y byddwch yn cyflawni gweledigaeth y fferm.

Ffermio er mwyn bwyd a natur ...



...Statws Naturiol Uchel

3.1 Gwneud Cais – Awgrymiadau Gorau

Os ydych yn cyflwyno cais, rydym yn argymhell eich bod yn adolygu'r cynnwys ar ein gwefan isod i gael awgrymiadau gorau ac i ddod i'n hadnabod yn well, yn ogystal â deall ein strategaeth a'n gweledigaeth.

<https://www.nationaltrust.org.uk/features/farm-lettings>

<https://www.nationaltrust.org.uk/farming>

<https://www.nationaltrust.org.uk/lists/seven-of-our-best-nature-friendly-farms>

Gall y dolenni allanol hyn hefyd eich helpu i lunio eich cynnig fferm a'ch gweledigaeth ar gyfer natur.

<https://www.nffn.org.uk/>

<https://farmwildlife.info>

3.3 Cefndir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn elusen annibynnol sy'n ymwneud â chadwraeth a mynediad i'r cyhoedd, sy'n gofalu am leoedd arbennig ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

<https://www.nationaltrust.org.uk/>

Cefnogir ni gan ryw 5 miliwn o aelodau a 65,000 o wirfoddolwyr. Rydym yn un o gyrrff cadwraeth blaenllaw Ewrop ac yn un o'r tirlfeddianwyr mwyaf yn y DU, gan reoli tua 247,900 hectar o dir, sef tua 1.5% o'r tir ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, er budd y genedl.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rheoli tir er mwyn cyflawni amrywiaeth o amcanion, yn amrywio o ddiogelu tirweddau a nodweddion hanesyddol i greu a rheoli cynefinoedd bywyd gwylt, gyda ffermio cynaliadwy yn fecanwaith pwysig yn hyn o beth.

Mae cadwraeth bioamrywiaeth a'r dirwedd wedi bod yn rhan o ddibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth erioed. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ymrwymedig i gyflawni "rheolaeth tir gynaliadwy, gan ddiwallu anghenion cymdeithas heddiw tra'n cadw'r tir a'i adnoddau mewn cyflwr da am byth, i bawb."

4. Ymwadiad

Diben y manylion hyn yw darparu canllaw yn unig ac felly ni ddylid eu hystyried yn ffurfio nac yn rhan o unrhyw gynnydd na contract.

Rhoddir pob disgrifiad, dimensiwn, cyfeiriad at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannaeth yn ddiwyll ac y credir eu bod yn gywir; fodd bynnag, ni ddylai unrhyw denant arfaethedig ddibynnu arnynt fel datganiadau nac fel sylwadau ffeithiol, a rhaid iddo/iddi sicrhau ei hun drwy archwiliad personol neu fel arall o gywirdeb pob eitem.

Ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gost a achosir gan ymgeisydd wrth archwilio'r eiddo a pharatoi cyflwyniadau, waeth a yw'r eiddo'n cael ei osod neu'n cael ei dynnu'n ôl ai peidio.

4.1 GDPR

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni, felly byddwn bob amser yn cadw eich manylion yn ddiogel ac ni fyddwn byth yn eu defnyddio ar gyfer cyfathrebiadau marchnata nad ydych chi wedi cytuno i'w derbyn.

Gellir dod o hyd i'n Polisi Preifatrwydd llawn ar-lein yn:


<https://www.nationaltrust.org.uk/features/privacy-policy>

Efallai y bydd angen i ni gasglu data personol gennych er mwyn ein galluogi i gyfathrebu â chi a, lle bo angen, i anfon manylion Diwrnodau Agored y Fferm a'r broses dendro.


Os byddwch yn dewis gwneud cais am y daliadaeth fferm, byddwn ond yn defnyddio'r data a ddarparwch at ddibenion gwerthuso ceisiadau a dewis Tenant.

Gellir cadw'r wybodaeth a gyflwynwch yn unol â'n Hamserlen Cadw Data. Os byddwch, ar unrhyw adeg, yn newid eich meddwl ac nad ydych chi inni gadw eich gwybodaeth mwyach, anfonwch e-bost at wa.tenantenquiries@nationaltrust.org.uk.

Atodiad A – Lleoliad



Atodiad B – Cynllun y Daliad



Atodiad C – Amserlen y Caeau

Parsel	Arwynebedd Tua (ha)	Defnydd Cyfyngedig
SH2989 7484	1.89	Porfa Barhaol
SH2990 7804	7.89	Porfa Barhaol
SH2990 6921	1.20	Porfa Barhaol
SH2990 7523	1.34	Porfa Barhaol
SH2990 8423	2.19	Porfa Barhaol
SH2990 9132	1.35	Porfa Barhaol
SH2990 9925	1.97	Porfa Barhaol
SH3090 1226	1.99	Porfa Barhaol
SH3090 1710	4.35	Porfa Barhaol
SH3089 0298	3.24	Porfa Barhaol
SH3090 2733	1.18	Porfa Barhaol
SH3090 2511	2.07	Porfa Barhaol
SH3090 3703	1.86	Porfa Barhaol
SH3089 3199	0.77	Porfa Barhaol
SH3089 2985	0.38	Porfa Barhaol
SH3089 3277	2.05	Porfa Barhaol
SH3089 2468	0.64	Porfa Barhaol
Cyfanswm	36.36	